

Croeso i'n pedwerydd cylchlythyr!

Mae nifer o gartrefi a busnesau yn ardaloedd Y Rhath, Pen-y-lan a Heol Casnewydd mewn perygl o ddirodded llifogydd yn sgil Nant y Rhath ac Afon Rhymni. Gyda chymuned Y Rhath, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i greu a gweithredu cynllun rheoli perygl llifogydd ar Nant y Rhath. Nod y newyddlen hon yw rhoi gwybod ichi am gynnydd y cynllun.

Sesiwn Galw Heibio Cyhoeddus Mis Medi

Diolch i bawb a ddaeth draw i'r sesiwn galw heibio yn Ysgol Gynradd Marlborough ar 8 Medi i weld a thrafod y gwaith arfaethedig. Rydym yn hynod ddiolchgar am y sylwadau a'r adborth gwerthfawr a gawsom. A wnewch chi ddychwelyd eich ffurflenni adborth erbyn 26 Medi.



Medi 2014 –
Sesiwn Galw
Heibio Cyhoeddus.

Gallwch weld achyflwyno sylwadau ar y cynigion o hyd...

Os methoch â dod i'r digwyddiad galw heibio, mae'r wybodaeth ar gael yn Llyfrgell Pen-y-lan tan 26 Medi. Hefyd, gallwch lwytho copïau o'r wybodaeth a'r ffurflenni adborth i lawr oddi ar ein gwefan:

<http://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/media-and-news-centre/newsletters/roath-flood-scheme-newsletter/?lang=cy>

**Er mwyn cysylltu â ni
neu dderbyn newyddion:**

Roath@NaturalResourcesWales.gov.uk

Mae eich adborth yn cyfrannu at y cynllun

Caiff adborth gan y gymuned, trefeddiannwyr ac ymgynghoreion statudol ei ddefnyddio wrth lunio'r cynllun. Bydd y tîm yn bwrw golwg manwl dros y sylwadau a gafwyd wrth inni fwrw ymlaen gyda'r cynllunio. Cyn bo hir, byddwn yn llunio crynodeb o'r adborth a gafwyd a'r modd y mae wedi'i ymgorffori.

Ar sail yr adborth a gafwyd eisoes, gallwn ddod i'r casgliadau cychwynnol a ganlyn:

- Mae mwyafrif llethol y rhai a ymatebodd at ei gilydd yn cefnogi'r cynigion.
- Rydym yn ymchwilio i ddewisiadau amgen ar gyfer mynediad o lôn gefn Gerddi Waterloo, yn lle'r ramp.
- Cafwyd safbwyntiau amrywiol ynglŷn â'r cladin mwyaf addas ar gyfer y wal. Crybwyllodd rhai pobl y defnydd o frics yn y tirlun Edwardaidd. Roedd yn well gan eraill gerrig. Byddwn yn datblygu'r cynllun i adlewyrchu pob ardal leol.
- Cafwyd safbwyntiau amrywiol ynglŷn â blaenoriaethu gwelliannau i amwynderau a bywyd gwyllt. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynigion, gan geisio gwella'r defnydd presennol a wneir o bob ardal lle bo modd, a lle bo'r cyllid cyfyngedig yn caniatáu.

Beth nesaf?

Bydd newyddlen Hydref yn crynhoi canlyniad yr ymgynghoriad a'r newidiadau a fydd wedi deillio ohono.



Bydd cynigion yn ymwneud â'r cynllun yn cael eu cyflwyno i Gyngor Caerdydd fel rhan o Gais Cynllunio, Gaeaf 2014.



Ein bwriad yw penodi contractwr i ymgymryd â cham cyntaf y gwaith yn ystod Gwanwyn 2015.



Byddwn yn trefnu arddangosfa gyhoeddus ddilynol a fydd yn dangos y cynlluniau a gymeradwywyd, a byddwn yn rhoi mwy o fanylion am y gwaith adeiladu.



Bydd y gwaith adeiladu'n dechrau yn ystod 2015. Caiff ei wneud fesul cam er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar bawb, a byddwn yn ymgysylltu â'r gymuned drwy gydol y gwaith.

- Cefnogwyd y syniad o blannu planhigion i guddio'r mur llifogydd wrth ymyl Heol Waterloo. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r cynigion ailblannu gyda Chyngor Caerdydd.
- Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio mwy o gloddiau pridd er mwyn cuddio mwy ar y mur llifogydd yn y parciau.
- Dylai'r pontydd troed newydd fod ar yr un dull â'r rheini a geir yng Ngerddi Nant y Rhath.
- Rydym wrthi'n ystyried sylwadau'n ymwneud â chynigion i geisio atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.